POWELL, VAVASOR (1617 - 1670), diwinydd Piwritanaidd

Enw: Vavasor Powell
Dyddiad geni: 1617
Dyddiad marw: 1670
Priod: Katherine Powell (née Gerard)
Priod: Joan Quarrel
Rhiant: Penelope Powell (née Vavasor)
Rhiant: Richard Powell
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: diwinydd Piwritanaidd
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Robert Tudur Jones

Ganwyd yn 1617 yn y Cnwcglas, plwyf Heyop, sir Faesyfed, yn fab Richard Powell a'i wraig Penelope, merch William Vavasor y Drenewydd (Grazebrook a Rylands, *Visitation of Shropshire*, ii, 324, 407, 468-9; C. B. Northcliffe, *Visitation of Yorkshire*, 329-31). Treuliodd beth amser yn Clun fel ysgolfeistr (*Examen*, 16), ac efallai fel curad (*Life*, 6. 124) gyda'i or-ewythr Erasmus Powell. Dywed Anthony Wood fod Vavasor Powell yn fyfyriwr yng Ngholeg Iesu, Rhydychen, o 1634 ymlaen (*Athenae Oxonienses*, 1692, ii, 343), ond nid ymddengys ei enw ym mhapurau'r coleg. Fe'i trowyd yn Biwritan tra yn Clun trwy ddarllen *The Bruised Reede* (Richard Sibbes) a thrwy bregethu Walter Cradoc (*Life*, 1-4, 116).

Cyhuddwyd ef yn 1640 o beri cythrwfl trwy bregethu (*Life*, 126-7, 10-11), ac yn 1642 fe'i cyhuddwyd yn 'Assizes' Llanandras o ymneilltuo o'r Eglwys, ond fe'i dyfarnwyd yn ddieuog (*Examen*, 10).

Erbyn 1642 yr oedd yn Llundain (*Life*, 11), ac yn 1644 fe'i henwyd yn ficer Dartford, Caint (G. A. Tait, *The Church and Vicars of Dartford* 1909, 26). Ymddiswyddodd 7 Ionawr 1646 (E. Hasted, *History of Kent*, 230). Ar 11 Medi 1646 rhoddwyd iddo dystysgrif teilyngdod gan gymanfa Westminster, ar ôl ei enwi fel pregethwr yng Nghymru gan y Committee for Plundered Ministers (Bodl. MS. 325 (68)). Bu gyda byddin Thomas Mytton yn ymosod ar Fiwmares yn yr Hydref, 1648 (Phillips, *Civil War in Wales*, ii, 382-401). Ar 2 Rhagfyr 1649 pregethodd gerbron Thomas Foot, arglwydd faer Llundain, ac ar 28 Chwefror 1650 gerbron y Tŷ Cyffredin. Fe'i hapwyntiwyd yn brofwr tan Ddeddf y Taenu, a chysylltid ei enw'n arbennig â'r pregethwyr teithiol (*Strena*, wynebddalen). Gwadai'n gyson y cyhuddiadau iddo gam-ddefnyddio'r arian degwm i ddibenion personol. Oherwydd iddo ymlynu wrth y ddysgeidiaeth am y Bumed Frenhiniaeth, daeth i wrthdrawiad â'r Ddiffynwriaeth. Ar 21 Rhagfyr 1653 fe'i carcharwyd am iddo ymosod yn hallt ar Cromwell mewn araith ar 18 a 19 Rhagfyr. Fe'i rhyddhawyd 24 Rhagfyr, a ffôdd i Gymru yn Ionawr i drefnu gwrthwynebiad i'r Arglwydd Amddiffynnydd. Anghofiodd ei wrthwynebiad pan ymunodd â gwŷr Cromwell i chwalu'r gwrthryfel brenhinol yn 1655 (*A true and full Relation of the great Rising*, 1655, 4). Ond penllanw'r gwrthwynebiad oedd y ddeiseb 'A Word for God,' a arwyddwyd gan 322 o bobl ac a gyflwynwyd yn Nhachwedd 1655. Bu hon yn foddion i belláu Vavasor Powell oddi wrth ei gydweithwyr Piwritanaidd, yn ogystal â'r awdurdodau llywodraethol.

Carcharwyd ef ar 23 Ebrill 1660 (*Life*, 129) a thrachefn 30 Gorffennaf (*Calendar of State Papers, Domestic Series*, 1660-1, 123, 135). Erbyn Medi 1661 yr oedd yng ngharchar y Fleet, Llundain, ond fe'i symudwyd ym Medi 1662 i gastell Southsea (ibid., 1661-2, 463; *Life*, 132). Nis rhyddhawyd tan Tachwedd 1667 (*Life*, 132, 134). Ym Mawrth 1668 pregethodd yn Blue Anchor Alley, Llundain (*Calendar of State Papers, Domestic Series*, 1667-8, 318-9) ac ymwelodd eto â Maldwyn (G. Lyon Turner, *Original Records*, i, 4). Fe'i cymerwyd i'r ddalfa eto yn Hydref 1668, ar ôl pregethu ym Merthyr Tydfil. Fe'i croesholwyd ddwywaith yn y Bontfaen (*Life*, 135-41, 177-82) ac yna yn neuadd y dref, Caerdydd, 13 Ionawr 1669 (*Life*, 182-8). Symudwyd ei achos i'r Court of Common Pleas, ac ymddangosodd yno 22 Mai. Ar 24 Mai 1669 (*Life*, 188-9) fe'i carcharwyd yn y Fleet. Bu farw wedi salwch poenus 27 Hydref 1670, yn 53 oed (*Life*, 189-90), a chladdwyd ei weddillion yng nghladdfa Bunhill Fields.

Ei wraig gyntaf oedd Joan Quarrel, gweddw Paul Quarrel, Llanandras; a'i ail wraig oedd Katherine, pumed ferch Gilbert Gerard, Crewood, Caer, a'i goroesodd (G. Ormerod, *History of Chester*, ii, 132), ac a ddaeth wedyn yn wraig i John Evans (1628 - 1700) Ni bu iddo blant.

Dyma restr o weithiau Vavasor Powell : 1, *The Scriptures Concord* (London, 1646); 2, *God the Father Glorified* (London, 1649); 3, *Christ and Moses Excellency* (London, 1650); 4, *Saving Faith* (London, 1651); 5, *Christ Exalted*, 1651 (arg. gyda rhif 4); 6, *Three Hymnes [sic]* (London, 1650); 7, *Common-Prayer-Book No Divine Service* (London, 1660); 8, *The Bird in the Cage* (London, 1661); 9, *The Sufferers-Catechism*, 1664; 10, *A New and Useful Concordance* (London, 1671); 11, *The Life and Death of Mr. Vavasor Powell* , 1671 (yn cynnwys ei hunangofiant), 1-19; 12, *Divine Love* (London, 1677); 13, *The Golden Sayings ... of Mr. Vavasor Powell* (d.d. un ddalen; wedi eu cynnull gan John Conniers); gweler hefyd NLW MS 366A: Vavasor Powel and others: Poetry a NLW MS 1961A: Vavasor Powell, &c. .

Awdur

Y Parchedig Brifathro Robert Tudur Jones, (1921 - 1998)

Ffynonellau

Edward Bagshaw, *The Life and Death of Mr. Vavasor Powell, that faithful minister and confessor of Jesus Christ. Wherein his eminient conversion, laborious, successful ministry, excellent conversation, confession of faith, worthy sayings, choice experiences, various sufferings, and other remarkable passages, in his life, and at his death, are faithfully recorded for publick benefit* (1671)

Alexander Griffith, *Strena Vavasoriensis a New Years gift for the Welsh itinerants or a hue and cry after Mr. Vavasor Powell* (1654, 1915)

Vavasoris Examen et Purgamen or Mr V. Powell's impartiall triall who being apprehended upon the late hue and cry raised after him, hath appealed to God and his country, and is found not guilty (Llundain 1654)

David Davies, *Vavasor Powell. The Baptist evangelist of Wales in the seventeenth century* (Llundain 1896)

Oxford Dictionary of National Biography

Darllen Pellach

Edward Bagshaw, David Richard (cyf.), William Richards (cyf.), *Hanes bywyd a marwolaeth y Parchedig Mr. Fafasor Powel y gweinidog a'r milwr dewrwych hwnnw o eiddo Iesu Grist* (Caerfyrddin 1772)

John Howells, *The history of the old Baptist Church at Olchon, together with the life and martyrdom of Sir John Oldcastle, the Lord Cobham; and the life of Mr. Vavasor Powel* (Aberdare 1887)

Erthygl Wicipedia: Vavasor Powell

Gweithiau

Vavasor Powell, *Tyred a chroeso at Iesu Grist: sef ymddiddan rhwng yr Iesu a'r publican, yr hyn sydd er addysg a chysur i'r Cristion gwan* (Caerlluon 1767)

Vavasor Powell, *Ymddiddan rhwng yr Arglwydd Iesu a'r Pharisead hunan-gyfiawn, yr hwn sydd yn pwyso ar ei weithredoedd ei hun* (Caerfyrddin 1768)

Vavasor Powell, *Canwyll Crist, sef, Ymddiddan rhwng yr Arglwydd Jesu ar credadyn ammheus sydd yn gweled i anheily ngdod yr hynn sydd er addysc a chysur, i'r penaf o bechaduriaid. A ddychwelo at yr Arglwydd mewn gwirionedd* (Caerlleon 1767)

William Perkins, Vavasor Powell, Oliver Thomas, *Cyfarwydd-deb i'r anghyfarwydd, sef, Llyfr yn cynnwys, 1 Agoriad byrr ar Weddi'r Arglwydd: 2 Ymddidanion rhwng y Carwr a'r Cymro: 3 Ymddiddanion rhwng Crist a'r Publican, rhwng Crist a'r Pharisead, a rhwng Crist a'r Credadyn ammheus, sef canwyll Crist. 4 Amryw reolau duwiol* (Llundain 1677)

Oliver Thomas, Vavasor Powell, *Drych, y Cristion: neu Gadwedigol Ffydd, wedi ei Datgyddio mewn Ymddiddanion. I. Rhwng y Carwr a'r Cymro: Iw Gymell i Addoli Duw yn ei Dy. II. Rhwng Iesu a'r Publican. I Gyfarwyddo y Pechadur sy'n gweled ei Anheilyngdod. III. Rhwng Iesu a'r Pharisaeaid. I Argyhoeddi y Rhagrithiwr, sy'n pwyso ar waith ei hun. IV. Rhwng Iesu a'r Credadyn Ammheus. I Gysuro y Gwir Gristion* (Dublin 1766)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 42190984

Wikidata: Q3400520

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Jones, R. T., (1953). POWELL, VAVASOR (1617 - 1670), diwinydd Piwritanaidd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 15 Awst 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-POWE-VAV-1617

Copïo i'r clipfwrdd

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLGC NLW

LLYFRGELL THE NATIO

Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government